SCHEDULE 2

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif C***(a)*

**Yr wyf yn ardystio:**

- Nad wyf fi/Nad yw'r ceisydd/Nad yw'r apelydd* yn gallu rhoi Tystysgrif A neu B mewn perthynas â'r cais/apêl* amgaeëdig.
- Fy mod i/bod y ceisydd/bod yr apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i'r personau a restrir isod, sef personau a oedd ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl*, yn berchnogion*(b)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apel* yn ymwneud ag ef.

| Enw'r perchennog *(b)* | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|
| | | |

- Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi cymryd yr holl gamau rhesymol a oedd ar gael i mi/iddo/iddi* i ddarganfod enwau a chyfeiriadau perchnogion eraill *(b)* y tir, neu ran ohono, ond wedi methu gwneud hynny. Yr oedd y camau hyn fel a ganlyn:

  *(c)*.............................................................................................................

  .............................................................................................................

- Bod hysbysiad am y cais/apel*, fel y'i atodir i'r Dystysgrif hon, wedi'i gyhoeddi

  yn *(d)* .............................................................................................................

  ar *(e)* .............................................................................................................

Llofnodwyd..................................

*Ar ran .......................................

Dyddiad .....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

---

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid llenwi un o dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau), ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

*(b)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

Nodwch:

*(c)* disgrifiad o'r camau a gymerwyd

*(d)* enw papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal lle lleolir y tir

*(e)* dyddiad y cyhoeddi (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn gynt nag 21 diwrnod cyn dyddiad y cais neu'r apêl)